

PHILLIPS, JOHN ('Tegidon '; 1810 - 1877), argraffydd a bardd

Enw: John Phillips
Ffugenw: Tegidon
Dyddiad geni: 1810
Dyddiad marw: 1877
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: argraffydd a bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: William Rowlands

Ganwyd 12 Ebrill 1810, yn y Bala. Addysgwyd ef yn ysgol Tŷ-tan-domen yn y Bala, ac yno y prentisiwyd ef yn argraffydd gyda **Robert Saunderson**. Symudodd oddi yno i Gaer i swyddfa **John Parry**, a bu yno am dymor yn arolygu swyddfa argraffu 'r *Drysorfa* a *Goleuad Cymru*; ysgrifennodd lawer i'r ddau gyhoeddiad hyn. Tua 1850, symudodd i Borthmadog yn ysgrifennydd i'r ' Welsh Slate Company,' a bu wedyn yn brif orchwyliwr y cwmni am tuag 20 mlynedd. Fel argraffydd bu'n cynorthwyo **Robert Isaac Jones** ('Alltud Eifion') i gychwyn argraffwasg yn Nhremadog yn 1854. Ysgrifennodd lawer i'r *Drysorfa*, *Y Gwylledydd*, *Y Geiniogwerth*, *Seren Gomer*, *Y Methodist*, a'r *Traethodydd* (1849-54). Bu'n is-olygydd i'r *Gwylledydd*, ac yn olygydd barddoniaeth *Goleuad Cymru*, 1822-38, am flynyddoedd. Gwnaeth lawer i hyrwyddo llenyddiaeth a cherddoriaeth yng nghylch Porthmadog, ac yr oedd yn amlwg fel siaradwr cyhoeddus. Cyfansoddodd lawer o farddoniaeth hefyd; ond yn y mesurau rhydd y canai y rhan amlaf. Daeth un o'i ganeuon, ' Hen Feibl Mawr Fy Mam,' yn boblogaidd iawn, a hefyd ' Saith ym Ni,' cyfieithiad o ' We are Seven ' Wordsworth. Cyfansoddodd rai emynau, ac ysgrifennodd lawer o ganeuon ac ysgrifau i blant a phobl ieuanc; a chyhoeddodd amryw lyfrau poblogaidd: e.e. *Y Ddeilen ar y Traeth*, 1868, *Y Tlws Arian*, *Y Gelyn a'r Frwydr*, *Y Cenhadwr*, *Yr Eglwys yn y Tŷ* (cyfieithiad o lyfr J. Hamilton); *Seppely Bach a'i Feibl* (cyfieithiad o chwedl Swisaidd). Bu farw 28 Mai 1877 ym Mhorthmadog, a chladdwyd ef ym mynwent Llanycil.

Awdur

William Rowlands

Ffynonellau

Hanes Porthmadog (1913), 187-8

Cymru (O.M.E.), vi, 111-3; xi, 121-3; lix, 30

Y Gestiana, 88

Beirdd y Bala (1911), 93-8

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 121840816

Wikidata: Q27971201

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Rowlands, W., (1953). PHILLIPS, JOHN ('Tegidon '; 1810 - 1877), argraffydd a bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PHIL-JHN-1810>

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government